

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 8o'r gloch 5 Hydref 2020

**Presennol:** Cyng. Sharon Parry (Cadeirydd)  
Cyng. Celfyn Furlong  
Cyng. Gwilym O. Jones  
Cyng. Siân Enfys Jones  
Cyng. Einir Thomas

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen, Beryl Salisbury a Dyfed Williams.

2. **Datganiad o ddiddordeb:** - Cyng. Celfyn Furlong eitem 4.

3. **Materion yn codi:**

Gwahoddwyd Cyng. Gwilym Jones a'r Clerc i gyfarfod gyda Rheolwr Safle Kenton Jones Ltd. A swyddogion o'r Cyngor Sir ar Faes Chware Treifan i drafod y cynnig i adeiladu tŷ chwarae yno. Fe ofynwyd am gopiau o'r lluniadau ac fe'u rhannwyd gyda'r aelodau cyn y drafodaeth.

Roedd y Cyngor ar y cyfan yn hapus gyda'r cynnig ond cytunwyd gofyn am rywbeth i'r plant eistedd arno y ty fewn i'r strwythur. Cytunwyd hefyd i ofyn am feinciau picnic newydd ar gyfer y cae chwarae.

4. **Ceisiadau Cynllunio**

**VAR/2020/46 Bryn Ednyfed, Caergeiliog.**

Cais o dan Adran 73A i dileu amod (04)(Defnydd tymhorol) o caniatâd cynllunio rhif 32C123E/VAR (amrywio amod (01) o ganiatâd cynllunio 32C123D (Cais llawn ar gyfer y defnydd cyfreithlon o'r safle ar gyfer dim mwy na 20 o garafanau rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref, cynnydd mewn storio gaeaf ynghyd â chadw llwybr mynediad a gweithrediadau peirianeg) er mwyn caniatáu 24 llain galed ar gyfer carafanau a gweithrediadau peirianeg) er mwyn tynnu'r amod defnydd tymhorol er mwyn gallu defnyddio'r safle drwy'r flwyddyn - dim gwrthwynebiad.

Gadawodd Cyng. Furlong y cyfarfod a chymerodd ddim rhan yn y drafodaeth.

5. **Cyfarfod Nesaf – 20 Hydref 2020.**

Llofnod.....Cadeirydd.....